Iechyd Cyhoeddus Cymru
Public Health Wales

# Tueddiadau mewn atal, diagnosio a thrin HIV yng Nghymru

## Adroddiad Blynyddol 2025
## (Data hyd at ddiwedd 2024)

# Gwybodaeth am Iechyd Cyhoeddus Cymru

Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn bodoli i ddiogelu a gwella iechyd a llesiant ac i leihau anghydraddoldebau iechyd i bobl yng Nghymru.  Rydym yn gweithio'n lleol, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol, gyda'n partneriaid a'n cymunedau.

Y Ganolfan Wyliadwriaeth ar gyfer Clefydau Trosglwyddadwy

Iechyd Cyhoeddus Cymru

Rhif 2 Capital Quarter

Stryd Tyndall

Caerdydd

CF10 4BZ

https://icc.gig.cymru/

**Diolchiadau**

Hoffai Iechyd Cyhoeddus Cymru ddiolch i bawb sydd wedi cyfrannu at systemau data a gwyliadwriaeth ar gyfer HIV yng Nghymru.

Adroddiad wedi'i baratoi gan grŵp pwnc arbenigol BBV, STI, TB ac Anghydraddoldebau, y Ganolfan Wyliadwriaeth ar gyfer Clefydau Trosglwyddadwy (CDSC), Iechyd Cyhoeddus Cymru.

**Cyfeiriad a Awgrymir:** Is-adran Diogelu Iechyd, Iechyd Cyhoeddus Cymru (2025). Tueddiadau mewn atal, diagnosio a thrin HIV yng Nghymru, Adroddiad Blynyddol 2025 (data hyd at ddiwedd 2024). Caerdydd, Iechyd Cyhoeddus Cymru.

# Cynnwys


Cynnwys ....... 3

1 Crynodeb gweithredol ....... 6

1.1 Atal ....... 6

1.2 Profi ....... 6

1.3 Diagnosisau HIV newydd ymhlith trigolion Cymru ....... 6

1.4 Pob diagnosis HIV ....... 7

1.5 Triniaeth a Gofal ....... 7

1.6 Marwolaethau ....... 7

2 Atal ....... 8

2.1 Proffylacsis Cyn-gysylltiad ar gyfer HIV ....... 8

3 Profion HIV ....... 9

3.1 Profi yng Nghymru ....... 9

4 Diagnosis ....... 11

4.1 Diagnosis HIV newydd – cymhariaeth lefel gwlad ....... 11

4.2 Proffil demograffig achosion newydd o HIV yng Nghymru ....... 12

4.2.1 Proffiliau oedran a rhyw ....... 12

4.2.2 Ethnigrwydd a gwlad/rhanbarth genedigol ....... 14

4.2.3 Bwrdd iechyd preswyl ....... 16

4.2.4 Ffynhonnell fwyaf tebygol amlygiad a adroddir gan y claf ....... 17

4.3 Diagnosisau hwyr o achosion newydd o HIV ....... 18

4.4 Pob diagnosis o HIV ....... 18

4.5 HIV ymhlith Menywod Beichiog ....... 19

5 Triniaeth a Gofal ....... 19

5.1 Pobl sy'n byw gyda HIV ....... 19

5.2 Triniaeth a llwyth feirysol ....... 21

6 Marwolaethau ....... 21

7 Ffynonellau data ....... 23


## Tablau


Tabl 1: Nifer yr unigolion yng Nghymru a gafodd PrEP ar bresgripsiwn yn ôl presenoldeb mewn clinigau'r Bwrdd Iechyd a'r flwyddyn, 2020-2024 ....... 9

Tabl 2: Cyfanswm y profion HIV Ag/Ab a gynhaliwyd mewn clinigau iechyd rhywiol, gofal sylfaenol ac eilaidd a TAP, unigolion a brofwyd, ac adweithedd a gofnodwyd gan labordai Cymru, yn ôl blwyddyn, 2020-2024 a nifer ....... 10

Tabl 3: Nifer yr unigolion a brofwyd a'r gyfradd fesul 100,000 o'r boblogaeth (n(cyfradd)) ar gyfer HIV Ag/Ab mewn clinigau iechyd rhywiol, gofal sylfaenol ac eilaidd, a gwasanaeth Profi ac Ôl-brofi yn ôl bwrdd iechyd preswyl a blwyddyn........................................................ 11
Tabl 4: Nifer a chyfraddau y diagnosisau HIV newydd a adroddwyd yn y DU, yn ôl gwlad a blwyddyn 2020-2024........................................................................................................ 12
Tabl 5: Amlder oedran, rhyw ac ethnigrwydd* ar gyfer trigolion Cymru sydd wedi cael diagnosis HIV newydd yn y DU, 2020-2024 ........................................................................ 12
Tabl 6: Nifer a chyfradd fesul 100,000 o'r boblogaeth (n(cyfradd)) o ddiagnosisau HIV newydd ymhlith trigolion Cymru, yn ôl rhyw a blwyddyn 2020-2024.................................... 13
Tabl 7: Nifer a chyfradd fesul 100,000 o'r boblogaeth o ddiagnosisau HIV newydd ymhlith trigolion Cymru, yn ôl grŵp oedran a blwyddyn 2020-2024 .................................................. 14
Tabl 8: Nifer a chyfradd fesul 100,000 (n(cyfradd)) o ddiagnosisau HIV newydd ymhlith trigolion Cymru, yn ôl grŵp ethnigrwydd* a blwyddyn 2020-2024 ....................................... 14
Tabl 9: Nifer a chyfran (%) y diagnosisau HIV newydd ymhlith trigolion Cymru, yn ôl rhanbarth genedigol* a blwyddyn ................................................................................... 15
Tabl 10: Nifer a chyfradd fesul 100,000 o'r boblogaeth (n(cyfradd)) o ddiagnosisau HIV newydd ymhlith trigolion Cymru, yn ôl bwrdd iechyd preswyl a blwyddyn 2020-2024 ....... 16
Tabl 11: Nifer y diagnosisau newydd o HIV yn y DU ymhlith trigolion yng Nghymru, yn ôl llwybr amlygiad* a blwyddyn 2020-2024.............................................................................. 17
Tabl 12: Nifer a chyfran (%) y diagnosisau newydd o HIV ymhlith trigolion Cymru gyda chyfrif CD4 wedi'i adrodd o fewn 91 diwrnod a diagnosisau hwyr yng Nghymru lle adroddwyd am gyfrif CD4, yn ôl blwyddyn 2020-2024 ........................................................... 18
Tabl 13: Pob diagnosis HIV newydd a adroddwyd yn y DU a'r gyfradd fesul 100,000 o'r boblogaeth, yn ôl gwlad a blwyddyn.......................................................................................... 19
Tabl 14: Nifer a chyfradd fesul 100,000 o'r boblogaeth sy'n byw gyda HIV yn y DU, yn ôl gwlad a blwyddyn, 2020-2024....................................................................................................... 20
Tabl 15: Proffil demograffig y rhai sy'n byw gyda HIV ac sy'n cael gofal yng Nghymru, yn ôl blwyddyn, 2020-2024............................................................................................................... 21
Tabl 16: Nifer a chyfran (%) yr unigolion sy'n cael ART, yn nodi llwyth feirysol ac sydd â llwyth feirysol na ellir ei ganfod, yn ôl blwyddyn 2020-2024.................................................. 21
Tabl 17: Nifer y marwolaethau a gofnodwyd ymhlith y rhai a oedd yn byw gyda HIV yng Nghymru, yn ôl blwyddyn, 2020-2024........................................................................................ 22

## Ffigurau

Ffigur 1: Nifer yr unigolion a gafodd PrEP ar bresgripsiwn mewn clinigau iechyd rhywiol, yn ôl blwyddyn 2020-2024, Cymru ................................................................................................8
Ffigur 2: Nifer yr unigolion a PrEP ar bresgripsiwn mewn clinigau iechyd rhywiol, yn ôl grŵp oedran, 2020-2024.................................................................................................................9
Ffigur 3: Nifer yr unigolion a brofwyd am HIV Ag/Ab mewn clinigau iechyd rhywiol, gofal sylfaenol ac eilaidd a TAP, yn ôl grŵp oedran a blwyddyn ...................................................... 10
Ffigur 4: Dosbarthiad oedran-rhyw diagnosisau HIV newydd ymhlith trigolion Cymru, 2024 ................................................................................................................................................ 13
Ffigur 5: Cyfran y diagnosisau newydd o HIV ymhlith trigolion Cymru, yn ôl grŵp ethnigrwydd* a blwyddyn 2020-2024 ......................................................................................... 15
Ffigur 6: Cyfran y diagnosisau newydd o HIV ymhlith trigolion Cymru, yn ôl rhanbarth genedigol a blwyddyn.................................................................................................................. 16
Ffigur 7: Cyfradd diagnosisau HIV newydd ymhlith trigolion Cymru yn ôl awdurdod lleol, blynyddoedd cyfunol 2020-2024 ............................................................................................. 17

Ffigur 8: Cyfran y diagnosisau HIV newydd ymhlith trigolion Cymru, yn ôl amlygiad rhywiol* a blwyddyn 2020-2024 ........ 18
**Ffigur 9: Cyfradd pob diagnosis HIV fesul 100,000 o'r boblogaeth, yn ôl gwlad yn y DU a blwyddyn 2020-2024** ........ 19

## Rhestr o'r prif fyrfoddau

| | |
|---|---|
| **Gwrth-HIV** | Gwrthgorff Feirws Imiwnoddiffygiant Dynol |
| **Therapi gwrth-retrofeirysol (ART)** | Therapi gwrth-retrofeirysol |
| **BBV** | Feirws a Gludir yn y Gwaed |
| **HIV** | Feirws Imiwnoddiffygiant Dynol |
| **LIMS** | System Rheoli Gwybodaeth Labordy |
| **GBMSM** | Dynion Hoyw a Deurywiol sy'n cael Rhyw gyda Dynion |
| **PCR** | Adwaith Cadwynol Polymeras |
| **POCT** | Prawf yn y man lle y rhoddir gofal |
| **SWS** | Cynllun Gwyliadwriaeth Iechyd Rhywiol yng Nghymru |
| **VL** | Llwyth Feirysol |
| **WHO** | Sefydliad Iechyd y Byd |

## Diffiniadau[1]

| Term | Diffiniad |
|---|---|
| Diagnosis HIV newydd | Pobl sy'n byw yng Nghymru, sy'n cael eu diagnosis cyntaf o HIV yng Nghymru neu Loegr, heb unrhyw dystiolaeth o ddiagnosis blaenorol yn rhywle arall. Mae data ar gael o 2020 ymlaen. Mae diagnosis HIV unigolyn yn cael ei aseinio i'w leoliad preswylio waeth ble y digwyddodd y diagnosis. |
| Pobl a gafodd ddiagnosis o HIV cyn parhau â gofal yng Nghymru | Pobl a oedd wedi cael diagnosis o HIV y tu allan i'r DU yn flaenorol, ond sy'n parhau i gael gofal HIV yng Nghymru. Mae data ar gael o 2020 ymlaen. |
| Pob diagnosis HIV | Mae pob diagnosis HIV yn cyfeirio at ddiagnosis newydd o HIV a phobl sydd wedi cael diagnosis o HIV cyn parhau â gofal yng Nghymru. Mae data ar gael o 2020 ymlaen. |
| Diagnosis hwyr | Diffinnir hyn fel cael cyfrif CD4 o dan 350 o gelloedd fesul milimetr ciwbig o fewn 91 diwrnod ar ôl y diagnosis cyntaf o HIV yn y DU a dim tystiolaeth o serodrawsnewid diweddar. Y dystiolaeth yw naill ai brawf HIV negyddol o fewn 24 mis ar ôl y diagnosis neu ganlyniad Algorithm Profi Haint Diweddar (RITA) sy'n dynodi haint diweddar. Mae pobl sydd â chyfrifon CD4 ar goll wedi'u heithrio o gyfrifiad diagnosis hwyr. Mae plant 14 oed ac iau adeg y diagnosis HIV wedi'u heithrio o gyfrifo diagnosis hwyr. |

1 UKHSA. Tablau data blynyddol HIV. Atodiad – Newidiadau iaith yn dilyn ymgynghori â rhanddeiliaid. 2025. Ar gael yn: HIV testing, PrEP, new HIV diagnoses and care outcomes for people accessing HIV services: Adroddiad 2025 - GOV.UK

# Pwrpas

Mae Cynllun Gweithredu HIV i Gymru 2023-26 Llywodraeth Cymru[2] yn nodi pum maes blaenoriaeth ar gyfer gweithredu: atal, profi, gofal clinigol, byw'n dda gyda HIV a mynd i'r afael â stigma sy'n gysylltiedig â HIV. Yn ogystal, mae wedi ymrwymo i gyflawni targedau UNAIDS 95:95:95 ar gyfer HIV[3].

Mae'r adroddiad hwn yn darparu gwybodaeth am epidemioleg, atal a rheoli HIV yng Nghymru hyd at ddiwedd 2024. Mae'r adroddiad wedi'i anelu at wneuthurwyr polisi, clinigwyr a chynllunwyr gwasanaethau iechyd, comisiynwyr, asiantaethau cyfiawnder troseddol, asiantaethau'r trydydd sector a'r byd academaidd.

## 1 Crynodeb gweithredol

### 1.1 Atal

- Er 2020, mae mwy na 5,745 o bobl wedi cael meddyginiaeth Proffylacsis Cyn-gysylltiad (PrEP) ar bresgripsiwn yng Nghymru. Cafodd 2,319 o bobl PrEP ar bresgripsiwn yn 2024, sef cynnydd o 4.1% er 2023 a'r nifer uchaf ers cyflwyno PrEP yng Nghymru
- Mae PrEP yn parhau i gael ei ragnodi amlaf i wrywod (98%) a'r rhai yn y categori oedran 25-34 oed (35%).

### 1.2 Profi

- Gan gyfuno data profion labordy a phrofion yn y cartref, profwyd 133,699 o unigolion am HIV yn 2024, sef cynnydd o 8.3% ar 2023 (profwyd 123,350 o bobl) a'r nifer uchaf ers 2020.
- Roedd profion yn y cartref yn cyfrif am fwy na 18% o'r unigolion a brofwyd yn 2024
- O'r rhai a brofwyd, roedd 53% yn fenywaidd, 41% yn wrywaidd, <1% yn anneuaidd gyda'r 6% sy'n weddill heb eu cofnodi. Digwyddodd y rhan fwyaf o brofion HIV yn y grŵp oedran 25-34 oed (41.6%)

### 1.3 Diagnosisau HIV newydd ymhlith trigolion Cymru

- Roedd 73 o ddiagnosisau HIV newydd ymhlith trigolion Cymru yn 2024. Mae hyn yn cynrychioli gostyngiad o 19.7% o gymharu â 2023 pan adroddwyd am 91 o achosion.
- Roedd y rhan fwyaf o'r diagnosisau newydd ar gyfer: gwrywod (78%), rhwng 35 a 49 oed, ac o ethnigrwydd Gwyn
- Rhyw rhwng dynion a menywod oedd y llwybr amlygiad a adroddwyd amlaf (45%), ac yna rhyw rhwng dynion (37%)
- Mae cyfradd y diagnosisau newydd o HIV fesul 100,000 o'r boblogaeth yng Nghymru wedi gostwng ers 2023 (o 2.9 i 2.3 fesul 100,000 o'r boblogaeth)

---

2 Llywodraeth Cymru. Dileu HIV, gwella ansawdd bywyd a mynd i'r afael â stigma sy'n gysylltiedig â'r feirws – cynllun gweithredu ar gyfer 2023-26. Ar gael yn: Cynllun Gweithredu HIV i Gymru

3 UNAIDS. Ar gael yn Understanding measures of progress towards the 95–95–95 HIV testing, treatment and viral suppression targets

## 1.4 Pob diagnosis HIV

- Daeth pob diagnosis o HIV yng Nghymru yn 2024 i gyfanswm o 130, gan gynnwys 73 o ddiagnosisau newydd o HIV a 57 o bobl a gafodd ddiagnosis o HIV cyn parhau â’u gofal yng Nghymru.
- Mae nifer yr holl ddiagnosisau HIV y flwyddyn wedi bod yn cynyddu yng Nghymru ers 2021 o gyfradd o 3.8 i 4.1 fesul 100,000 o'r boblogaeth yn 2024. Mae hyn yn is na'r gyfradd yn Lloegr a'r Alban (9.2 a 6.1 yn y drefn honno). Nid oes data cyfatebol ar gael ar gyfer Gogledd Iwerddon ar gyfer y cyfnod hwn
- Yn hanesyddol, lle adroddwyd ar lwybr amlygiad tebygol, roedd y rhan fwyaf o achosion yn adrodd am ryw rhwng dynion. Fodd bynnag, er 2021 yng Nghymru, fel yng ngweddill y DU, mae’r rhan fwyaf o’r holl ddiagnosisau HIV wedi nodi trosglwyddiad trwy ryw rhwng dynion a menywod.
- Mae celloedd CD4 yn fath o gelloedd gwaed gwyn sy'n cael eu targedu'n benodol gan HIV. Mewn HIV sydd newydd gael diagnosis, mae cyfrif CD4 o lai na 350 o gelloedd/$^{mm3}$ yn dynodi diagnosis hwyr ac mae cyfrif o lai na 250 o gelloedd/mm$^3$ yn dynodi diagnosis hwyr iawn. Lle'r oedd data CD4 ar gael (97.3% o achosion), roedd tystiolaeth o ddiagnosis hwyr yn bresennol ar gyfer 45.1% o ddiagnosisau newydd, sef cynnydd o gymharu â 2023, sef 36.6%.

## 1.5 Triniaeth a Gofal

- Cyfradd cyffredinolrwydd unigolion sy'n byw gyda HIV yng Nghymru oedd 84.4 fesul 100,000 o'r boblogaeth yn 2024, a oedd yn is na’r gyfradd yn Lloegr a'r Alban (179.7 a 99.9 fesul 100,000 o'r boblogaeth yn y drefn honno).
- Roedd 73.7% o’r unigolion a oedd yn byw gyda HIV yng Nghymru yn wrywod, sef cynnydd o 70.9% yn 2023.
- Dywedodd 2,616 (98%) o unigolion eu bod wedi cael ART, ychydig yn is nag yn 2023 (99%), ond eu bod yn dal i gyrraedd targed UNAIDS o 95%.
- O'r rhai sy'n byw gyda HIV a lle mae’r llwyth firaol wedi'i adrodd, adroddodd 99% lwyth feirysol o 1000 copi/ml neu is, ac adroddwyd bod gan 99% lwyth feirysol o 200 copi/ml neu is, sy'n dynodi ataliad feirysol, unwaith eto o fewn targed UNAIDS o 95%.

## 1.6 Marwolaethau


- Cofnodwyd 11 o farwolaethau mewn pobl a oedd yn byw gyda HIV, o gymharu â 30 o farwolaethau yn 2023. Mae gwaith yn mynd rhagddo i ddeall achos sylfaenol marwolaethau mewn pobl sy'n byw gyda HIV. Yn 2024, digwyddodd y rhan fwyaf o farwolaethau (57%) fwy na 12 mlynedd ar ôl cael diagnosis o HIV, a chofnodwyd y nifer uchaf ymhlith y rhai rhwng 35 a 49 oed.

# 2 Atal

## 2.1 Proffylacsis Cyn-gysylltiad ar gyfer HIV

Cafodd proffylacsis cyn-gysylltiad (PrEP), sef meddyginiaeth a ddangoswyd i leihau'r risg o gael HIV trwy ryw >99% pan gaiff ei chymryd fel y'i rhagnodir[4], ei gyflwyno yng Nghymru ym mis Gorffennaf 2017. Mae'r cynnydd yn nifer y bobl sy'n cymryd PrEP, oherwydd hygyrchedd ehangach, yn cyd-daro â'r gostyngiad mewn achosion newydd o HIV yn y DU, yn enwedig ymhlith dynion Hoyw a Deurywiol sy'n cael Rhyw gyda Dynion (GBMSM)[5].

Er 2020, mae 5,745 o unigolion wedi cael PrEP ar bresgripsiwn trwy glinigau iechyd rhywiol yng Nghymru gyda'r un unigolion yn cael presgripsiwn dros sawl blwyddyn. Mae nifer y bobl sy'n cymryd PrEP wedi codi bob blwyddyn rhwng 2020 a 2024, fel y dangosir yn Ffigur 1, gyda 2,319 o unigolion yn ei gael ar bresgripsiwn yn 2024, sef cynnydd o 4.1% ar y flwyddyn flaenorol.




**Ffynhonnell: SWS, 2025**

**Ffigur 1: Nifer yr unigolion a gafodd PrEP ar bresgripsiwn mewn clinigau iechyd rhywiol, yn ôl blwyddyn 2020-2024, Cymru**


At ei gilydd, roedd y rhan fwyaf o'r unigolion a gafodd PrEP mewn clinigau iechyd rhywiol yn wrywod (98%), wedi hunan-adrodd fel GBMSM (48%), ac yn y grŵp oedran 25-34 oed (35%) (Ffigur 2). Mae canllawiau PrEP 2025[6] yn dangos bod PrEP yn addas ar gyfer: GBMSM; dynion a menywod Du Affricanaidd; menywod trawsryweddol; mewnfudwyr diweddar; pobl sy'n chwistrellu cyffuriau; pobl sy'n adrodd am waith rhyw neu ryw trafodol.

---

[4] CDC (2024) HIV Basics: Prep Effectiveness. https://www.cdc.gov/hiv/prevention/prep.html (Saesneg yn unig)

[5] Asiantaeth Diogelwch Iechyd y DU (2023) HIV: Tablau Data Blynyddol. https://www.gov.uk/government/statistics/hiv-annual-data-tables (Saesneg yn unig)

[6] Canllawiau Cymdeithas Iechyd Rhywiol a HIV/Cymdeithas HIV Prydain ar ddefnyddio proffylacsis cyn-amlygiad (PrEP) HIV 2025. Ar gael yn: 2025-PrEP-guidelines.pdf




**Ffynhonnell: SWS, 2025**

**Ffigur 2: Nifer yr unigolion a PrEP ar bresgripsiwn mewn clinigau iechyd rhywiol, yn ôl grŵp oedran, 2020-2024**

Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro sydd wedi darparu'r gyfran uchaf o ddarpariaeth PrEP yn gyson dros y pum mlynedd diwethaf (Tabl 1), ac yn y flwyddyn diwethaf, roedd yn cyfrif am 47% o'r unigolion a gafodd PrEP ar bresgripsiwn.

**Tabl 1: Nifer yr unigolion yng Nghymru a gafodd PrEP ar bresgripsiwn yn ôl presenoldeb mewn clinigau'r Bwrdd Iechyd a'r flwyddyn, 2020-2024**

| Bwrdd Iechyd | 2020 | 2021 | 2022 | 2023 | 2024 |
|---|---|---|---|---|---|
| Aneurin Bevan | 218 | 264 | 358 | 379 | 386 |
| Betsi Cadwaladr | 197 | 246 | 320 | 280 | 214 |
| Caerdydd a'r Fro | 709 | 1,278 | 952 | 973 | 1,090 |
| Cwm Taf Morgannwg | 47 | 62 | 100 | 91 | 99 |
| Hywel Dda | 49 | 30 | 42 | 46 | 23 |
| Powys* | - | - | - | - | - |
| Bae Abertawe | 232 | 278 | 384 | 458 | 507 |
| **Cyfanswm** | **1,452** | **2,158** | **2,156** | **2,227** | **2,319** |

**Ffynhonnell: SWS, 2025**

*Nid oes gan Bowys glinigau iechyd rhywiol sefydlog

# 3 Profion HIV

## 3.1 Profi yng Nghymru

Mae nifer yr unigolion a brofwyd am HIV mewn clinigau iechyd rhywiol, gofal sylfaenol neu eilaidd neu drwy'r Cynllun Profi a Phostio[7] (TAP) wedi dyblu dros y pum mlynedd diwethaf. Yn 2024, profwyd tua 18% o unigolion drwy'r Cynllun TAP (gweler

[7] Pecyn Profi STI Cymru - Iechyd Rhywiol Cymru

Ffynonellau data i gael mwy o wybodaeth:

Yn 2024, profwyd cyfanswm o 133,699 o unigolion yng Nghymru, ac roedd 53% ohonynt yn fenywod, 41% yn wrywod, <1% yn anneuaidd, gyda'r 6% sy'n weddill heb eu cofnodi.


Cafodd 856 o unigolion brawf HIV Ag/Ab adweithiol yn 2024 (Tabl 2), sy'n dynodi ail-brofi unigolion a gafodd ddiagnosis o HIV.  Roedd 73 o ddiagnosisau newydd o HIV yng Nghymru yn 2024, sy'n cynrychioli cyfradd o 0.05% o unigolion a brofwyd.

**Tabl 2: Cyfanswm y profion HIV Ag/Ab a gynhaliwyd mewn clinigau iechyd rhywiol, gofal sylfaenol ac eilaidd a TAP, unigolion a brofwyd, ac adweithedd a gofnodwyd gan labordai Cymru, yn ôl blwyddyn, 2020-2024 a nifer**

| Blwyddyn | Cyfanswm profion HIV Ag/Ab | Unigolion a brofwyd | Unigolion â phrawf adweithiol | Cyfran adweithiol % | Nifer y diagnosisau newydd o HIV |
|---|---|---|---|---|---|
| 2020 | 81,452 | 71,795 | 557 | 0.8 | 74 |
| 2021 | 115,665 | 95,975 | 503 | 0.5 | 63 |
| 2022 | 133,541 | 107,918 | 693 | 0.6 | 104 |
| 2023 | 148,455 | 123,350 | 754 | 0.6 | 91 |
| 2024 | 160,682 | 133,699 | 856 | 0.6 | 73 |

**Ffynhonnell: LIMS a TAP, 2025**

Roedd y rhan fwyaf o'r unigolion a brofwyd yn y grwpiau oedran 25-34 (Ffigur 3).




**Ffynhonnell: LIMS a TAP, 2025**

**Ffigur 3: Nifer yr unigolion a brofwyd am HIV Ag/Ab mewn clinigau iechyd rhywiol, gofal sylfaenol ac eilaidd a TAP, yn ôl grŵp oedran a blwyddyn**

Dangosir nifer yr unigolion a brofwyd ym mhob bwrdd iechyd preswyl yn Nhabl 3, gyda'r gyfradd brofi uchaf o 4,716 fesul 100,000 o'r boblogaeth ymhlith trigolion ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg .

**Tabl 3: Nifer yr unigolion a brofwyd a'r gyfradd fesul 100,000 o'r boblogaeth (n(cyfradd)) ar gyfer HIV Ag/Ab mewn clinigau iechyd rhywiol, gofal sylfaenol ac eilaidd, a gwasanaeth Profi ac Ôl-brofi yn ôl bwrdd iechyd preswyl a blwyddyn**

| Bwrdd iechyd preswyl | 2020 | 2021 | 2022 | 2023 | 2024 |
|---|---|---|---|---|---|
| Aneurin Bevan | 10,106 **(1,720.9)** | 14,118 **(2,390.4)** | 15,783 **(2,652.1)** | 18,072 **(3,014.1)** | 20,087 **(3,314.1)** |
| Betsi Cadwaladr | 9,789 **(1,422.5)** | 13,877 **(2,011.7)** | 15,938 **(2,299.1)** | 18,338 **(2,631.3)** | 19,469 **(2,773.4)** |
| Caerdydd a'r Fro | 9,883 **(2,010.7)** | 13,482 **(2,728.8)** | 15,612 **(3,076.6)** | 16,213 **(3,109.9)** | 19,442 **(3,717.9)** |
| Cwm Taf Morgannwg | 6,985 **(1,577.9)** | 13,494 **(3,012.9)** | 17,398 **(3,838.4)** | 18,795 **(4,119.7)** | 19,967 **(4,351.8)** |
| Hywel Dda | 4,808 **(1,260.7)** | 7,476 **(1,944.6)** | 9,434 **(2,428.2)** | 10,044 **(2,563.9)** | 10,610 **(2,701.9)** |
| Powys | 848 **(641.5)** | 1,596 **(1,191.2)** | 1,894 **(1,406.3)** | 2,109 **(1,557.7)** | 2,575 **(1,892.4)** |
| Bae Abertawe | 6,196 **(1,625.0)** | 9,518 **(2,491.2)** | 11,921 **(3,072.1)** | 12,695 **(3,225.1)** | 13,198 **(3,312.8)** |

**Ffynhonnell: LIMS a TAP, 2025**

# 4 Diagnosis

O 1 Ionawr 2024 ymlaen, bydd clinigwyr iechyd rhywiol yn cyflwyno hysbysiadau am ddiagnosisau newydd o HIV yng Nghymru i Iechyd Cyhoeddus Cymru yn rheolaidd, hynny trwy'r e-ffurflen HIV newydd. Mae cyflwyno'r broses e-ffurflen hon wedi galluogi cynnydd mewn hyder yn nata HIV Cymru. Dylid dehongli data cyhoeddedig ynghylch diagnosis HIV newydd mewn blynyddoedd cynharach yn ofalus.

## 4.1 Diagnosis HIV newydd – cymhariaeth lefel gwlad

Lle nad oes gan unigolion dystiolaeth o ddiagnosis HIV blaenorol, cânt eu cofnodi fel diagnosis newydd yn y DU[8]. Mae cyfraddau diagnosis newydd y DU yn darparu tystiolaeth o drosglwyddo o fewn y wlad ac felly maent yn fesur pwysig ar gyfer dangos tystiolaeth o weithredu tuag at gyflawni targedau dileu UNAIDS[9].

Gostyngodd nifer yr achosion o HIV newydd yng Nghymru i 2.3 fesul 100,000 o'r boblogaeth yn 2024, ac mae'n parhau i fod yn is na'r gyfradd yn Lloegr o fesul blwyddyn ond yn uwch na'r hyn a adroddwyd yn yr Alban. Nid yw Gogledd Iwerddon wedi cyflwyno data ers 2022. Gellir gweld y gyfradd fesul 100,000 o'r boblogaeth o ddiagnosisau HIV newydd, cymhariaeth fesul gwlad yn Nhabl 4.

[8] Mae nodi achos fel diagnosis newydd yn y DU yn ddibynnol ar gyflwyno hanes profi HIV cyflawn i UKHSA ar y ffurflen adrodd HIV clinigol. Mae'n bosibl bod rhagdybiaethau wedi'u gwneud lle'r oedd data ar goll.
[9] Targedau Argymhelliedig UNAIDS ar gyfer HIV ar gyfer 2030 | UNAIDS

**Tabl 4: Nifer a chyfraddau y diagnosisau HIV newydd a adroddwyd yn y DU, yn ôl gwlad a blwyddyn 2020-2024**

| | 2020 | | 2021 | | 2022 | | 2023 | | 2024 | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Gwlad/ Rhanbarth** | Nifer y diagnosisau newydd o HIV yn y DU | Cyfradd y diagnosisau HIV newydd yn y DU fesul 100,000 | Nifer y diagnosisau newydd o HIV yn y DU | Nifer y diagnosisau newydd o HIV yn y DU fesul 100,000 | Nifer y diagnosisau newydd o HIV yn y DU | Nifer y diagnosisau newydd o HIV yn y DU fesul 100,000 | Nifer y diagnosisau newydd o HIV yn y DU | Nifer y diagnosisau newydd o HIV yn y DU fesul 100,000 | Nifer y diagnosisau newydd o HIV yn y DU | Nifer y diagnosisau newydd o HIV yn y DU fesul 100,000 |
| Lloegr | 2,240 | 4 | 2,280 | 4 | 2,493 | 4.3 | 2,838 | 4.9 | 2,773 | 4.8 |
| Gogledd Iwerddon | 50 | 2.6 | 62 | 3.2 | 54 | 2.8 | - | | - | |
| Yr Alban | 112 | 2.1 | 88 | 1.6 | 115 | 2.1 | 123 | 2.2 | 123 | 2.2 |
| Cymru | 74 | 2.4 | 63 | 2 | 104 | 3.3 | 91 | 2.9 | 73 | 2.3 |
| Cyfanswm | 2,476 | 3.7 | 2,493 | 3.7 | 2,766 | 4.2 | 3,052 | 4.6 | 2,969 | 4.6 |

**Ffynhonnell: UKHSA a StatsCymru, 2025**

## 4.2 Proffil demograffig achosion newydd o HIV yng Nghymru

### 4.2.1 Proffiliau oedran a rhyw

Yn 2024, cymhareb rhywedd achosion newydd o HIV ymhlith trigolion Cymru oedd 3.5: I gwrywod i fenywod, yn uwch nag yn y tair blynedd flaenorol (Tabl 5 a 6). Roedd y rhan fwyaf o achosion newydd yn y grŵp oedran 35-49 oed a'r rhai o ethnigrwydd Gwyn (gweler Tabl 5).


**Tabl 5: Amlder oedran, rhyw ac ethnigrwydd* ar gyfer trigolion Cymru sydd wedi cael diagnosis HIV newydd yn y DU, 2020-2024**

| Diagnosisau HIV Newydd | 2020 | 2021 | 2022 | 2023 | 2024 |
|---|---|---|---|---|---|
| Pob un | 74 | 63 | 104 | 91 | 73 |
| Gwryw (gan gynnwys dynion trawsryweddol) | 58 (78%) | 46 (73%) | 73 (70%) | 63 (69%) | 57 (78%) |
| Benyw (gan gynnwys menywod trawsryweddol) | 16 (22%) | 17 (27%) | 30 (30%) | 28 (31%) | 16 (22%) |
| 0-14 | 0 | 0 | <5 | 0 | 0 |
| 15-24 | <10 | <10 | <10 | 10 | <5 |
| 25-34 | 29 | 16 | 22 | 32 | 22 |
| 35-49 | 23 | 24 | 49 | 37 | 33 |
| 50-64 | 10 | 15 | 22 | 11 | 11 |
| 65+ | <5 | <5 | <5 | <5 | 5 |
| Gwyn | 42 | 30 | 55 | 30 | 45 |
| Du Affricanaidd | <10 | <10 | 22 | 15 | 17 |
| Anhysbys | 15 | 19 | 23 | 39 | 8 |

**Ffynhonnell: Iechyd Cyhoeddus Cymru (ICC) a'r UKHSA, 2025**

*Dilëwyd data ethnigrwydd Du Caribïaidd, cymysg a grwpiau ethnig eraill oherwydd niferoedd isel iawn

Yn 2024, roedd proffil grŵp oedran haint HIV newydd yn wahanol rhwng gwrywod a benywod (Ffigur 4).




**Ffynhonnell: Iechyd Cyhoeddus Cymru (ICC) a'r UKHSA, 2025**

*Ni adroddwyd am unrhyw achosion an-ddeuaidd yn 2024

**Ffigur 4: Dosbarthiad oedran-rhyw diagnosisau HIV newydd ymhlith trigolion Cymru, 2024**

Dangosir nifer a chyfradd fesul 100,000 o'r boblogaeth o ddiagnosisau HIV newydd yn ôl rhyw yn Nhabl 6.

**Tabl 6: Nifer a chyfradd fesul 100,000 o'r boblogaeth (n(cyfradd)) o ddiagnosisau HIV newydd ymhlith trigolion Cymru, yn ôl rhyw a blwyddyn 2020-2024**

| Rhywedd | 2020 | 2021 | 2022 | 2023 | 2024 |
|---|---|---|---|---|---|
| Cyfanswm | 74 (2.4) | 63 (2.0) | 104 (3.3) | 91 (2.9) | 73 (2.3) |
| Gwryw (gan gynnwys dynion trawsryweddol) | 58 (3.8) | 46 (3.0) | 73 (4.8) | 63 (4.1) | 57 (3.7) |
| Benyw (gan gynnwys menywod trawsryweddol) | 16 (1.0) | 17 (1.1) | 30 (1.9) | 28 (1.7) | 16 (1.0) |

**Ffynhonnell: ICC, UKHSA a StatsCymru, 2025**

Yn 2024, gwelwyd gostyngiadau yn y gyfradd fesul 100,000 o'r boblogaeth ymhlith y grwpiau oedran 15-24 a 25-34 oed, ac yn y grŵp oedran 15-24 oed, cofnodwyd y gyfradd isaf yn y pum mlynedd diwethaf. Roedd nifer yr achosion newydd o ddiagnosis HIV dros 65 oed yr uchaf ers 2020 (Tabl 7).

**Tabl 7: Nifer a chyfradd fesul 100,000 o'r boblogaeth o ddiagnosisau HIV newydd ymhlith trigolion Cymru, yn ôl grŵp oedran a blwyddyn 2020-2024**

| Grŵp Oedran | 2020 | 2021 | 2022 | 2023 | 2024 |
|---|---|---|---|---|---|
| 0-14 | 0 (0.0) | 0 (0.0) | <5 (0.2) | 0 (0.0) | 0 (0.0) |
| 15-24 | <10 (2.2) | <10 (1.9) | 7 (1.9) | <15 (2.7) | <5 (0.5) |
| 25-34 | 29 (7.6) | 16 (4.2) | 22 (5.7) | 32 (8.2) | 22 (5.5) |
| 35-49 | 23 (4.2) | 24 (4.4) | 49 (8.9) | 37 (6.6) | 33 (5.8) |
| 50-64 | 10 (1.6) | 15 (2.3) | 22 (3.4) | 11 (1.7) | 11 (1.7) |
| 65+ | <5 (0.6) | <5 (0.2) | <5 (0.4) | <5 (0.1) | <10 (0.7) |
| **Cyfanswm** | **74 (2.4)** | **63 (2.0)** | **104 (3.3)** | **91 (2.9)** | **73 (2.3)** |

**Ffynhonnell: ICC, UKHSA a StatsCymru 2025**

### 4.2.2 Ethnigrwydd a gwlad/rhanbarth genedigol

Er bod diagnosisau newydd o HIV ymhlith trigolion Cymru yn gyson uchaf ymhlith y rhai o ethnigrwydd Gwyn, yn unol â phroffil ethnigrwydd Cymru[10] (gweler Tabl 8 a Ffigur 5). Fodd bynnag, yn 2022, gwelwyd cynnydd yn y nifer a'r gyfran a oedd yn nodi ethnigrwydd 'Du Affricanaidd', sydd wedi parhau i mewn i 2024. Gostyngodd cyfran y data anghyflawn neu ar goll ar gyfer ethnigrwydd yn sydyn yn 2024**.**


**Tabl 8: Nifer a chyfradd fesul 100,000 (n(cyfradd)) o ddiagnosisau HIV newydd ymhlith trigolion Cymru, yn ôl grŵp ethnigrwydd* a blwyddyn 2020-2024**

| Grŵp Ethnigrwydd | 2020 | 2021 | 2022 | 2023 | 2024 |
|---|---|---|---|---|---|
| Gwyn | 42 (1.4) | 30 (1.0) | 55 (1.9) | 30 (1.0) | 45 (1.5) |
| Du Affricanaidd | <10 (42.1) | <10 (25.1) | <25 (110.5) | 15 (75.4) | 17 (85.4) |
| Asiaidd | 6 (8.6) | 5 (5.6) | 0 (0.0) | <5 (3.4) | <5 (2.2) |
| Cymysg/Arall | <5 (8.5) | <5 (1.3) | <5 (2.7) | <5 (5.3) | <5(1.3) |
| **Cyfanswm** | **74 (2.4)** | **63 (2.0)** | **104 (3.3)** | **91 (2.9)** | **73 (2.3)** |

*Mae data Du Caribïaidd a Du arall wedi'u dileu oherwydd ffigurau isel

**Ffynhonnell: ICC, UKHSA a StatsCymru, 2025**

[10] Dangosodd data cyfrifiad y Swyddfa Ystadegau Gwladol 2021 fod 93.8% o ethnigrwydd Gwyn yng Nghymru: Grŵp ethnig, Cymru a Lloegr - Swyddfa Ystadegau Gwladol




**Ffynhonnell: Iechyd Cyhoeddus Cymru (ICC) a'r UKHSA, 2025**

**Ffigur 5: Cyfran y diagnosisau newydd o HIV ymhlith trigolion Cymru, yn ôl grŵp ethnigrwydd* a blwyddyn 2020-2024**


Yn 2024, roedd diagnosisau newydd o HIV ymhlith trigolion Cymru ar eu huchaf ymhlith y rhai a aned yn y DU, ac yna'r rhai a aned yn Affrica, sef tuedd gyson ers 2022 (Tabl 9). Mae cyfran yr unigolion nad yw eu gwlad enedigol yn hysbys ar ei hisaf ers 5 mlynedd oherwydd ansawdd data gwell drwy'r e-ffurflen HIV newydd.

**Tabl 9: Nifer a chyfran (%) y diagnosisau HIV newydd ymhlith trigolion Cymru, yn ôl rhanbarth genedigol* a blwyddyn**

| Rhanbarth Genedigol | 2020 | 2021 | 2022 | 2023 | 2024 |
|---|---|---|---|---|---|
| Y DU | 26 (35.1) | 28 (44.4) | 44 (42.3) | 35 (38.5) | 43 (58.9) |
| Ewrop | <5 (5.4) | <5 (6.3) | 6 (5.8) | <5 (4.4) | <5 (2.7) |
| Affrica | <5 (5.4) | <5 (6.3) | 16 (15.4) | 16 (17.6) | 21 (28.8) |
| Asia | <5 (5.4) | <5 (1.6) | <5 (1) | 7 (7.7) | <5 (2.7) |
| Arall | <5 (1.4) | <5 (1.6) | <5 (1) | <5 (1.1) | 0 (0) |
| Anhysbys | 35 (47.3) | 25 (39.7) | 36 (34.6) | 28 (30.8) | 5 (6.8) |

*Ni chafodd rhanbarthau genedigol eraill eu cynnwys oherwydd ffigurau isel

**Ffynhonnell: ICC, UKHSA a StatsCymru 2025**




**Ffynhonnell: Iechyd Cyhoeddus Cymru (ICC) a'r UKHSA, 2025**

**Ffigur 6: Cyfran y diagnosisau newydd o HIV ymhlith trigolion Cymru, yn ôl rhanbarth genedigol a blwyddyn**

### 4.2.3 Bwrdd iechyd preswyl


Mae cyfradd y diagnosisau HIV newydd fesul 100,000 o'r boblogaeth yn amrywio yn ôl bwrdd iechyd preswyl ledled Cymru (Tabl 10); fodd bynnag, mae'r cyfraddau'n gyson uchaf ymhlith y rhai sy'n byw yn ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro.

**Tabl 10: Nifer a chyfradd fesul 100,000 o'r boblogaeth (n(cyfradd)) o ddiagnosisau HIV newydd ymhlith trigolion Cymru, yn ôl bwrdd iechyd preswyl a blwyddyn 2020-2024**

| Presenoldeb mewn | 2020 | 2021 | 2022 | 2023 | 2024 |
|---|---|---|---|---|---|
| Aneurin Bevan | 12 (2) | 12 (2) | 14 (2.4) | 17 (2.9) | 18 (3) |
| Betsi Cadwaladr | 9 (1.3) | 9 (1.3) | 24 (3.5) | 13 (1.9) | 13 (1.9) |
| Caerdydd a'r Fro | 22 (4.5) | 19 (3.9) | 32 (6.3) | 35 (6.8) | 21 (4) |
| Cwm Taf Morgannwg | 10 (2.3) | <10 (1.1) | 13 (2.9) | 10 (2.2) | 5 (1.1) |
| Hywel Dda | <5 (1) | 8 (2.1) | 12 (3.1) | <10 (1.8) | 7 (1.8) |
| Powys | <5 (2.3) | <5 (0.7) | 6 (2.2) | <5 (0.7) | 0 (0) |
| Bae Abertawe | 12 (3.1) | 8 (2.1) | 6 (1.6) | 8 (2.1) | 9 (2.3) |
| **Cyfanswm** | **74 (2.4)** | **63 (2)** | **104 (3.3)** | **91 (2.9)** | **73 (2.3)** |

**Ffynhonnell: ICC, UKHSA a StatsCymru, 2025**

Wrth ystyried awdurdod lleol preswyl (Ffigur 7), cofnodwyd y cyfraddau HIV newydd uchaf fesul 100,000 o'r boblogaeth yn ardaloedd awdurdodau lleol Caerdydd a Chasnewydd gan ddefnyddio data cyfunol 2020-2024. Dylid nodi bod cyfraddau lleoliad yn seiliedig ar god post preswyl unigolion ac nid ydynt yn adlewyrchu safle’r diagnosis.




**Ffynhonnell: ICC, UKHSA a StatsCymru, 2025**

**Ffigur 7: Cyfradd diagnosisau HIV newydd ymhlith trigolion Cymru yn ôl awdurdod lleol, blynyddoedd cyfunol 2020-2024**

### 4.2.4 Ffynhonnell fwyaf tebygol amlygiad a adroddir gan y claf


Yn hanesyddol, rhyw rhwng dynion sydd wedi cael ei adrodd amlaf fel y llwybr amlygiad tebygol (gweler Tabl 11 a Ffigur 8); fodd bynnag, yn 2024, rhyw rhwng dynion a menywod oedd amlaf. O ystyried proffil rhywedd achosion newydd o HIV, mae hyn yn gynnydd yn nifer y dynion sy'n nodi rhyw rhwng dynion a menywod fel eu categori amlygiad tebygol.

**Tabl 11: Nifer y diagnosisau newydd o HIV yn y DU ymhlith trigolion yng Nghymru, yn ôl llwybr amlygiad* a blwyddyn 2020-2024**

| Categori amlygiad tebygol | 2020 | 2021 | 2022 | 2023 | 2024 |
|---|---|---|---|---|---|
| Rhyw rhwng dynion | 35 | 21 | 33 | 35 | 28 |
| Rhyw rhwng dynion a menywod | 17 | 21 | 38 | 33 | 33 |

*Ni chafodd amlygiadau nad ydynt yn rhywiol eu cynnwys oherwydd ffigurau isel

**Ffynhonnell: Iechyd Cyhoeddus Cymru (ICC) a'r UKHSA, 2025**




**Ffynhonnell: Iechyd Cyhoeddus Cymru (ICC) a'r UKHSA, 2025**

*Nid yw amlygiadau nad ydynt yn rhywiol wedi'u cynnwys ar y graff oherwydd niferoedd isel

**Ffigur 8: Cyfran y diagnosisau HIV newydd ymhlith trigolion Cymru, yn ôl amlygiad rhywiol* a blwyddyn 2020-2024**

## 4.3 Diagnosisau hwyr o achosion newydd o HIV

Mae diagnosis hwyr yn awgrymu y gallai fod cyfleoedd ar gyfer profi wedi eu colli ac mae ganddynt oblygiadau o ran canlyniadau iechyd. Yn seiliedig ar ystadegau swyddogol, yn 2024, darparwyd cyfrif CD4 o fewn 91 diwrnod ar ôl y diagnosis ar gyfer 97.3% o ddiagnosisau newydd, ac o'r rhain, nodwyd 45.1% fel diagnosisau hwyr (gweler Tabl 12). Cynyddodd nifer y diagnosisau hwyr yn 2024 o gymharu â 2023, er bod y gyfran â CD4 a adroddwyd hefyd wedi cynyddu.

**Tabl 12: Nifer a chyfran (%) y diagnosisau newydd o HIV ymhlith trigolion Cymru gyda chyfrif CD4 wedi'i adrodd o fewn 91 diwrnod a diagnosisau hwyr yng Nghymru lle adroddwyd am gyfrif CD4, yn ôl blwyddyn 2020-2024**

| | 2020 | 2021 | 2022 | 2023 | 2024 |
|---|---|---|---|---|---|
| Cyfrif CD4 wedi’i gofnodi | 57 (77.0%) | 42 (66.7%) | 93 (89.4%) | 82 (90.1%) | 71 (97.3%) |
| Diagnosis hwyr wedi’i gofnodi | 15 (26.3%) | 9 (21.4%) | 22 (23.7%) | 30 (36.6%) | 32 (45.1%) |

**Ffynhonnell: Iechyd Cyhoeddus Cymru (ICC) a'r UKHSA, 2025**

## 4.4 Pob diagnosis o HIV


Daeth pob diagnosis o HIV yng Nghymru yn 2024 i gyfanswm o 130, gan gynnwys 73 o ddiagnosisau HIV newydd a 57 o bobl a gafodd ddiagnosis o HIV cyn parhau â’u gofal yng Nghymru.

Mae cyfradd yr holl ddiagnosisau o HIV yn y DU yn 2024, gan gynnwys y rhai a gafodd ddiagnosis o HIV cyn parhau â’u gofal yn y DU, yn amrywio yn ôl gwlad (Tabl 13 a Ffigur 9). Mae'r cyfraddau ar eu huchaf yn Lloegr, gyda chyfraddau a thueddiadau amrywiol ledled Cymru a'r Alban. Yn 2024, cynyddodd cyfraddau Cymru i 4.1 o 3.8 fesul 100,000 o'r boblogaeth yn 2023. Nid yw Gogledd Iwerddon wedi cyflwyno data ers 2022. Mae'n debyg bod mwy o fudo yn ystod y blynyddoedd diwethaf wedi effeithio ar bob cyfradd achosion o HIV yn y DU.

**Tabl 13: Pob diagnosis HIV newydd a adroddwyd yn y DU a'r gyfradd fesul 100,000 o'r boblogaeth, yn ôl gwlad a blwyddyn**

| | 2020 | | 2021 | | 2022 | | 2023 | | 2024 | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Gwlad/Rhanbarth | Pob Diagnosis HIV | Cyfradd yr holl Ddiagnosisau HIV fesul 100,000 | Pob Diagnosis HIV | Cyfradd yr holl Ddiagnosisau HIV fesul 100,000 | Pob Diagnosis HIV | Cyfradd yr holl Ddiagnosisau HIV fesul 100,000 | Pob Diagnosis HIV | Cyfradd yr holl Ddiagnosisau HIV fesul 100,000 | Pob Diagnosis HIV | Cyfradd yr holl Ddiagnosisau HIV fesul 100,000 |
| Lloegr | 3,070 | 5.5 | 3,218 | 5.7 | 4,147 | 7.3 | 6,201 | 10.7 | 5,298 | 9.2 |
| Gogledd Iwerddon | 68 | 3.6 | 75 | 3.9 | 98 | 5.1 | - | | - | |
| Yr Alban | 222 | 4.1 | 198 | 3.7 | 303 | 5.6 | 353 | 6.5 | 334 | 6.1 |
| Cymru | 79 | 2.5 | 73 | 2.4 | 113 | 3.6 | 120 | 3.8 | 130 | 4.1 |
| Cyfanswm | 3,439 | 5.2 | 3,564 | 5.3 | 4,661 | 6.9 | 6,674 | 10.1 | 5,843 | 8.8 |

**Ffynhonnell: ICC, UKHSA a StatsCymru, 2025**




**Ffynhonnell: ICC, UKHSA a StatsCymru, 2025**

**Ffigur 9: Cyfradd pob diagnosis HIV fesul 100,000 o'r boblogaeth, yn ôl gwlad yn y DU a blwyddyn 2020-2024**

### 4.5 HIV ymhlith Menywod Beichiog

Yn 2024, rhoddodd 7 mam HIV positif enedigaeth yng Nghymru, ac ni chanfuwyd bod gan unrhyw fabanod HIV cynhenid.  Mae gwaith datblygu pellach o oruchwyliaeth HIV cynhenid yn mynd rhagddo ar hyn o bryd yng Nghymru.

## 5 Triniaeth a Gofal

### 5.1 Pobl sy'n byw gyda HIV

Mae cyfanswm y nifer o unigolion sy'n cael gofal HIV wedi cynyddu, fel y disgwyliwyd, o 2,414 yn 2020, i 2,670 yn 2024 (gweler Tabl 14). Nifer yr unigolion a oedd yn byw gyda HIV yng Nghymru fesul 100,000 o'r boblogaeth oedd 84.4 fesul 100,000 o'r boblogaeth yn

2024, sy'n is na'r nifer yn Lloegr a'r Alban (179.7 a 99.9 fesul 100,000 o'r boblogaeth, yn y drefn honno).

**Tabl 14: Nifer a chyfradd fesul 100,000 o'r boblogaeth sy'n byw gyda HIV yn y DU, yn ôl gwlad a blwyddyn, 2020-2024**

| | 2020 | | 2021 | | 2022 | | 2023 | | 2024 | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Gwlad | Nifer o Unigolion sy'n Byw gyda HIV | Cyfradd fesul 100,000 o'r boblogaeth | Nifer o Unigolion sy'n Byw gyda HIV | Cyfradd fesul 100,000 o'r boblogaeth | Nifer o Unigolion sy'n Byw gyda HIV | Cyfradd fesul 100,000 o'r boblogaeth | Nifer o Unigolion sy'n Byw gyda HIV | Cyfradd fesul 100,000 o'r boblogaeth | Nifer o Unigolion sy'n Byw gyda HIV | Cyfradd fesul 100,000 o'r boblogaeth |
| Lloegr | 89,569 | 159 | 91,550 | 161.9 | 94,563 | 165.6 | 99,791 | 173 | 103,689 | 179.7 |
| Gogledd Iwerddon | 1,208 | 63.6 | 1,291 | 67.8 | 1,312 | 68.7 | - | | - | |
| Yr Alban | 4,871 | 90 | 5,014 | 92.5 | 5,212 | 95.7 | 5,081 | 93.3 | 5,484 | 99.9 |
| Cymru | 2,414 | 77.8 | 2,437 | 78.5 | 2,515 | 80.3 | 2,741 | 86.6 | 2,670 | 84.4 |
| Cyfanswm | 98,062 | 146.9 | 100,292 | 149.7 | 103,602 | 153.2 | 107,613 | 162.3 | 111,843 | 168.6 |

**Ffynhonnell: ICC, UKHSA a StatsCymru, 2025**

**Oherwydd gwelliannau o ran prosesu data HIV yn 2024 sydd wedi lleihau nifer yr unigolion mewn categorïau demograffig "Anhysbys", cofnodwyd gostyngiad yn nifer yr unigolion sy'n cael gofal HIV yng Nghymru rhwng 2023 a 2024.**

Roedd y rhan fwyaf o'r unigolion a oedd yn cael gofal yn wrywod (70.8%); y rhai rhwng 35 a 49 oed a'r rhai o ethnigrwydd Gwyn (Tabl 15).

**Tabl 15: Proffil demograffig y rhai sy'n byw gyda HIV ac sy'n cael gofal yng Nghymru, yn ôl blwyddyn, 2020-2024**

| | 2020 | 2021 | 2022 | 2023 | 2024 |
|---|---|---|---|---|---|
| Cyfanswm | 2,414 | 2,437 | 2,515 | 2,741 | 2,670 |
| Benyw | 557 | 556 | 595 | 638 | 686 |
| Gwryw | 1,856 | 1,830 | 1,868 | 1,943 | 1,969 |
| 0-14 | 6 | 0 | <5 | 6 | 6 |
| 15-24 | 49 | 36 | 33 | 30 | 32 |
| 25-34 | 326 | 295 | 271 | 287 | 279 |
| 35-49 | 957 | 942 | 951 | 1,028 | 1,041 |
| 50-64 | 877 | 933 | 999 | 1,076 | 1,006 |
| 65+ | 199 | 231 | 259 | 313 | 305 |
| Gwyn | 1,817 | 1,810 | 1,827 | 1,862 | 1,607 |
| Du Affricanaidd | 342 | 326 | 344 | 360 | 352 |
| Du Caribïaidd | 7 | 8 | 9 | 13 | 14 |
| Du Arall | 37 | 38 | 40 | 41 | 35 |
| Asiaidd | 69 | 74 | 78 | 70 | 60 |
| Arall neu gymysg | 65 | 59 | 69 | 70 | 64 |

**Ffynhonnell: Iechyd Cyhoeddus Cymru (ICC) a'r UKHSA, 2025**

### 5.2 Triniaeth a llwyth feirysol

Defnyddir therapi gwrth-retrofeirysol (ART) i drin HIV. Mae hefyd yn lleihau'r llwyth feirysol (VL) at bwynt lle nad yw bellach yn bosib trosglwyddo'r haint i eraill. Gostyngodd nifer yr unigolion a oedd yn ôl pob sôn yn cael triniaeth ychydig yn 2024 (gweler Tabl 16); fodd bynnag, mae'r targed 95% a osodwyd gan UNAIDS o 'O leiaf 95% o bobl sy'n gwybod eu statws HIV yn cael triniaeth' yn dal i gael ei gyrraedd. Cynyddodd cyfran y rhai a oedd yn cael triniaeth yn nodi VL yn 2024 (91%), gyda'r gyfran â VL anghanfyddadwy yn parhau uwchlaw targed 95% UNAIDS.

**Tabl 16: Nifer a chyfran (%) yr unigolion sy'n cael ART, yn nodi llwyth feirysol ac sydd â llwyth feirysol na ellir ei ganfod, yn ôl blwyddyn 2020-2024**

| | 2020 | 2021 | 2022 | 2023 | 2024 |
|---|---|---|---|---|---|
| Yn cael ART | 2,411 | 2,428 | 2,494 | 2,701 | 2,616 |
| % | 100% | 100% | 99% | 99% | 98% |
| Yn adrodd llwyth feirysol | 1,623 | 1,617 | 1,619 | 2,326 | 2,435 |
| % | 67% | 66% | 64% | 85% | 91% |
| % sydd â VL anghanfyddadwy (<200 copi fesul ml) | 97% | 98% | 98% | 97% | 99% |

**Ffynhonnell: Iechyd Cyhoeddus Cymru (ICC) a'r UKHSA, 2025**

## 6 Marwolaethau

Yn 2024, roedd 11 o farwolaethau ymhlith pobl oedd yn byw gyda HIV (Tabl 17). Digwyddodd y rhan fwyaf o farwolaethau ymhlith pobl 35-49 oed. Roedd yn fwyaf cyffredin i farwolaeth ddigwydd fwy na 12 mlynedd ar ôl y diagnosis. Mae gwaith pellach

yn cael ei wneud i ddangos tystiolaeth o dueddiadau mewn achosion sylfaenol marwolaethau dros amser a chyfraniad haint HIV at farwolaethau.

**Tabl 17: Nifer y marwolaethau a gofnodwyd ymhlith y rhai a oedd yn byw gyda HIV yng Nghymru, yn ôl blwyddyn, 2020-2024**

| Blwyddyn | 2020 | 2021 | 2022 | 2023 | 2024 |
|---|---|---|---|---|---|
| Nifer y marwolaethau | 13 | 22 | 10 | 30 | 11 |

**Ffynhonnell: ICC ac UKHSA**

# 7 Ffynonellau data

Mae'r data a geir yn yr adroddiad hwn wedi'u casglu o nifer o ffynonellau, gan gynnwys:

- System Rheoli Gwybodaeth Labordy GIG Cymru (LIMS)
- Data blynyddol UKHSA
- Cynllun Gwyliadwriaeth Iechyd Rhywiol yng Nghymru (SWS)

Lle bo angen, cafwyd data poblogaeth o amcangyfrifon poblogaeth canol blwyddyn 2023 StatsCymru[11], sy'n seiliedig ar ffigurau SYG.

**Gwasanaeth Rheoli Gwybodaeth Labordy**

Mae'r System Rheoli Gwybodaeth Labordy (LIMS) yn system wybodaeth gyfrifiadurol y mae staff labordai yn ei defnyddio i gofnodi ceisiadau am brofion patholeg gan wardiau, theatrau, adrannau damweiniau ac achosion brys a chlinigau. Mae samplau'n cael eu bwydo trwy ddadansoddwyr patholeg sydd wedi'u cysylltu â'r LIMS ac sy'n trosglwyddo'r mesuriadau a'r data am y canlyniadau i LIMS trwy ryngwynebau pwrpasol. Yna caiff canlyniadau'r profion eu cysylltu ag enw'r claf gan LIMS yn barod i'w defnyddio gan y clinigwyr a'u tîm.

Mae ffynonellau data LIMS yn cynnwys yr holl brofion labordy a gynhaliwyd yn labordai GIG Cymru ac felly mae'n darparu gwybodaeth am holl boblogaeth Cymru.

**Adroddiad Clinigol am HIV (CHR)**

Mae gwybodaeth gan bawb sy'n byw gyda diagnosis o haint HIV ac sy'n cael mynediad at ofal gan wasanaethau GIG Cymru yn cael ei hadrodd gan ddefnyddio'r ffurflen Adroddiad Clinigol am HIV (CHR). Mae Lloegr a Gogledd Iwerddon yn defnyddio system debyg o'r enw HARS. Cyhoeddir data CHR gan UKHSA a'u defnyddio i gynllunio gwasanaethau, monitro ansawdd y gofal a dderbynnir gan gleifion a'u canlyniadau clinigol.

**Cynllun Gwyliadwriaeth Iechyd Rhywiol yng Nghymru (SWS)**

Mae'r Cynllun Gwyliadwriaeth Iechyd Rhywiol yng Nghymru (SWS) a gyflwynwyd yn 2011, yn cyd-gasglu gwybodaeth o'r systemau rheoli cleifion electronig a ddefnyddir ar hyn o bryd mewn clinigau iechyd rhywiol yng Nghymru. Mae SWS yn darparu set ddata Cymru gyfan sy'n cynnwys profion BBV a gwybodaeth ddiagnostig ar gyfer unigolion sy'n defnyddio gwasanaethau iechyd rhywiol ynghyd â rhywfaint o ddata demograffig ac ymddygiadol allweddol ar gyfer yr unigolion hynny megis rhyw, oedran, ethnigrwydd, ac awdurdod lleol preswyl. Mae nifer y profion a gofnodwyd yn SWS wedi newid ers cyhoeddi adroddiad HIV blynyddol 2023, ac mae ymchwiliadau ar y gweill i ddeall yn llawn y newidiadau yn y data a ddarperir trwy SWS.

**Y Swyddfa Ystadegau Gwladol**

Mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG) yn darparu amcangyfrifon o'r boblogaeth ar ganol y flwyddyn ar lefel genedlaethol ac is-genedlaethol ar gyfer y Deyrnas Unedig a'i gwledydd cyfansoddol yn ôl ardal weinyddol, oedran a rhyw (gan gynnwys elfennau o newid yn y boblogaeth, oedran canolrifol a dwysedd poblogaeth). Mae ystadegau poblogaeth ar gyfer rhywedd, oedran a lleoliad preswyl yn seiliedig ar ffigurau canol

[11] StatsCymru

blwyddyn 2022[12]. Mae amcangyfrifon poblogaeth ar gyfer Ethnigrwydd yn seiliedig ar gyfrifiad 2021 y SYG[13].

**Y gwasanaeth Profi a Phostio / The Doctors Lab (TDL)**

Sefydlwyd rhaglen sgrinio Profi a Phostio Cymru yn 2020 gan Iechyd Cyhoeddus Cymru mewn cydweithrediad â'r llywodraeth a Byrddau Iechyd Lleol (BILlau), fel gwasanaeth profi hunan-sgrinio drwy'r post ar gyfer feirysau a drosglwyddir yn rhywiol a Feirysau a Gludir yn y Gwaed (BBVs). Gofynnir am becynnau hunansgrinio ar-lein neu o leoliadau cymunedol a chânt eu cwblhau gan unigolion. Mae'r samplau canlyniadol yn cael eu prosesu gan labordy preifat, The Doctors Lab (TDL), ac felly nid ydynt wedi'u cynnwys yn LIMS. Anfonir canlyniadau at unigolion drwy neges destun gyda chyfeiriadau at wasanaethau triniaeth glinigol yn ôl yr angen. Mae profion Profi a Phostio negyddol yn cael eu cofnodi ynghyd â phrofion SWS yn adran 3 o'r adroddiad hwn. Dylai unigolion sy'n cael canlyniad positif trwy'r gwasanaeth Profi a Phostio gael eu gweld trwy glinigau iechyd rhywiol a chofnodir eu canlyniadau trwy SWS.

---

Y Swyddfa Ystadegau Gwladol Amcangyfrifon poblogaeth canol 2023. [Amcangyfrifon poblogaeth canol blwyddyn yr SYG]